# BETH AM GYSYLLTU

## GWEITHGAREDDAU AR GYFER PLANT 7-11 OED

Place2Be's WYTHNOS IECHYD MEDDWL PLANT

CHWEFROR 6-12 2023

GWEITHGAREDD 2

## CYSYLLTU TRWY DDAWNSIO A CHANU

**Mae'r gweithgaredd hwn yn dangos i'r disgyblion sut y gallant gysylltu heb eiriau trwy gymryd rhan, cael hwyl a gwneud pethau gyda'i gilydd.**

- Gwahoddwch y dosbarth cyfan neu grŵp o ddisgyblion i ddysgu dawns y byddant yn ei pherfformio gyda'i gilydd.
- Am ysbrydoliaeth gwyliwch We're All in This Together o'r ffilm High School Musical neu ddisgyblion ysgol yn ymgymryd â'r Her Jerusalema
- Efallai gallai'r dosbarth berfformio o flaen dosbarth arall, mewn gwasanaeth neu hyd yn oed drefnu fflachdorf un amser chwarae (bydd yr holl athrawon angen rhybudd o flaen llaw!) Fel syrpréis i'r disgyblion gallai'r staff hefyd ymuno neu wneud eu perfformiad eu hunain!
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael sgwrs â'r disgyblion am wneud y gweithgaredd hwn mor gynhwysol â phosib - cofiwch ei fod yn ymwneud â chysylltu, cydweithio a chymryd rhan, ac nid cael 'perfformiad perffaith'.
- Trafodwch â'r disgyblion sut wnaeth dawnsio a chanu gyda'i gilydd wneud iddynt deimlo.



### GWEITHGAREDDAU YMESTYN DEWISOL:

- Ar ôl cael y caniatâd angenrheidiol, ffilmiwch y gân/dawns/fflachdorf ac ystyriwch ddefnyddio'r geiriau a ddefnyddiodd y disgyblion i ddisgrifio sut y gwnaeth gysylltu yn y ffordd hon wneud iddynt deimlo i gyd-fynd â'r fideo.

**Mae'r gweithgaredd hwn wedi'i gynllunio ar gyfer plant 7-11 oed, ond fe allech ei ddefnyddio ar gyfer grwpiau oed eraill hefyd. I ymestyn y cynnwys, cyfeiriwch at syniadau eraill am weithgareddau.**